# Cogyddion a phobyddion enwog o Gymru

**Gweithgareddau**

1. Darllenwch y frawddeg, yna ticiwch y golofn gywir bob tro. Bydd mwy nag un golofn yn gywir weithiau.

| Brawddeg | Bryn | Elliw | Luke |
|---|---|---|---|
| i) Dechreuodd goginio gyda'i nain. | | | |
| ii) Buodd yn gweithio mewn becws. | | | |
| iii) Ymddangosodd ar raglen *Britain's Youngest Chef.* | | | |
| iv) Mae wedi cyhoeddi llyfr Cymraeg. | | | |
| v) Mae'n berchen ar ddau fwyty. | | | |
| vi) Mae'n gweithio i'r BBC. | | | |
| vii) Mae gwefan ganddo. | | | |
| viii) Buodd yn gweithio ym Mharis. | | | |
| ix) Roedd yn hoffi rhaglenni Jamie Oliver. | | | |
| x) Mae'n defnyddio hen ryseitiau ei nain. | | | |

2. Oeddech chi wedi clywed am Bryn, Elliw neu Luke o’r blaen?

Pa gogyddion neu bobyddion eraill rydych chi’n gallu eu henwi? Llenwch y tabl isod. Ydych chi’n gallu meddwl am fwy na phump?

| **Cogydd neu Bobydd** | **Sut rydym wedi dod i wybod amdano/amdani** |
|---|---|
| 1. | 1. |
| 2. | 2. |
| 3. | 3. |
| 4. | 4. |
| 5. | 5. |

3. Sawl un yn y dosbarth sydd wedi pobi neu goginio gartref, fel Bryn, Elliw a Luke?

Gweithiwch allan **ganran y disgyblion** sydd wedi pobi gartref.

4. Ydy Bryn, Luke ac Elliw yn gweithio fel cogydd neu bobydd proffesiynol?

   Sut allwch weithio fel cogydd? Mae Bryn a Luke wedi mynd ati mewn dwy ffordd wahanol.

   Pwy yn y dosbarth hoffai goginio neu bobi fel gyrfa? Ble allech chi fynd yn lleol i astudio arlwyo neu i gael profiad gwaith?

   Meddyliwch am fanteision ac anfanteision gyrfa fel cogydd neu bobydd.
   Dyma rai syniadau:
   - Beth yw'r oriau gwaith?
   - Beth yw'r cyflog?
   - Oes cyfle i fod yn greadigol?
   - Oes cyfle i deithio?
   - Ydych chi'n gallu gweithio mewn tîm?

| **Manteision gyrfa fel cogydd neu bobydd** | **Anfanteision gyrfa fel cogydd neu bobydd** |
|---|---|
| | |

5. Pam mae cogyddion a phobyddion yn cyhoeddi llyfrau, neu'n ysgrifennu blog, yn eich barn chi?

   Oes unrhyw un yn y dosbarth sydd â llyfr coginio neu sy'n darllen blog am goginio? Os oes, pam maen nhw'n eu hoffi?

   Edrychwch ar flog Elliw: www.panedachacen.wordpress.com
   Beth yw eich barn amdano?
   Edrychwch eto ar enwau'r llyfrau Cymraeg y mae Bryn ac Elliw wedi'u cyhoeddi:
   *Tir a Môr, Paned a Chacen, Pobi*. Petaech chi'n cyhoeddi llyfr coginio neu bobi Cymraeg, beth fyddai ei enw? Meddyliwch am dri theitl posibl i'ch llyfr chi:

   i. ..............................................................

   ii. ..............................................................

   iii. ..............................................................

6. O'r rhestrau isod, dewiswch y diffiniadau cywir ar gyfer y geiriau ar y chwith.

| | |
|---|---|
| becws | paratoi bwyd |
| ieuengaf | mwy nag un rysáit, sy'n dangos sut mae gwneud bwyd |
| arlwyo | mae bara'n cael ei wneud yma |
| ryseitiau | mwyaf ifanc, ifancaf |

Rhowch y geiriau hyn mewn brawddegau newydd.

i. **becws**

..........................................................................................................................

ii. **arlwyo**

..........................................................................................................................

iii. **ieuengaf**

..........................................................................................................................

iv. **ryseitiau**

..........................................................................................................................

Ydych chi wedi clywed am air Cymraeg arall sy'n golygu'r un peth â 'becws'? .........................

**Atebion**

1.

| | Bryn | Elliw | Luke |
|---|---|---|---|
| i) Dechreuodd goginio gyda'i nain. | | ✓ | ✓ |
| ii) Buodd yn gweithio mewn becws. | ✓ | | |
| iii) Ymddangosodd ar raglen *Britain's Youngest Chef.* | | | ✓ |
| iv) Mae wedi cyhoeddi llyfr Cymraeg. | ✓ | ✓ | |
| v) Mae'n berchen ar ddau fwyty. | ✓ | | |
| vi) Mae'n gweithio i'r BBC. | | ✓ | |
| vii) Mae gwefan ganddo. | | | ✓ |
| viii) Buodd yn gweithio ym Mharis. | ✓ | | |
| ix) Roedd yn hoffi rhaglenni Jamie Oliver. | | | ✓ |
| x) Mae'n defnyddio hen ryseitiau ei nain. | | ✓ | |

6.

| | |
|---|---|
| becws | mae bara'n cael ei wneud yma |
| arlwyo | paratoi bwyd |
| ieuengaf | mwyaf ifanc, ifancaf |
| ryseitiau | mwy nag un rysáit, sy'n dangos sut mae gwneud bwyd |

Gair arall: popty